

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 7 Chwefror 17, 2022 50c.

## Argyfwng Affganistan

Y mae'r sefyllfa argyfyngus yn Affganistan yn mynd o ddrwg i waeth. Y mae'r economi wedi dadfeilio a hyd at 8 miliwn o bobl yn wynebu newyn. Y mae un adroddiad yn dweud bod 95% o'r boblogaeth heb ddigon o fwyd ac y bydd cymaint â 22 miliwn o bobl ar eu cythlwn. Ynghlwm wrth yr ystadegau oeraidd hyn y mae perygl y bydd 1 miliwn o blant o dan 5 oed yn marw tros fisoedd y gaeaf. Mewn rhai ardaloedd mae'r tymheredd yn gostwng i -12 gradd. Dywed pennaeth Rhaglen Fwyd y Byd (WFP) mai hwn yw'r 'argyfwng dynol gwaethaf ar y ddaear.'

Plant bychain yn marw mewn byd o ddigonedd. Mae'r hyn sy'n digwydd yno yn warth ar genhedloedd cyfoethog y byd. Rhaid gweithredu yn awr er mwyn ymateb i'r sefyllfa arswydus hon.

Mae hi'n 6 mis ers i'r Taliban ddod i rym yno ac y maent yn cael ei hynysu gan genhedloedd y byd oherwydd eu cysylltiadau gyda theoristiaeth a'u hagwedd tuag at hawliau dynol.

Ond fel bob amser y bobl gyffredin sydd yn dioddef fwyaf.

Hoffem eich gwahodd a'ch annog i gyfrannu yn hael tuag at DEC sy'n cael ei gefnogi gan 17 o elusennau dyngarol gan gynnwys Cymorth Cristnogol un ai trwy eich eglwys leol neu nawr ar eu gwefan sef [www.dec.org.uk](http://www.dec.org.uk)

- Gall £30 drin 3 phlentyn sy'n dioddef o ddiffyg maeth am 3 wythnos.
- Gall £50 ddarparu plancedi ar gyfer 10 person dros y gaeaf.
- Gall £100 ddarparu bwyd i deulu am 3 mis.

(Ffynhonnell gwybodaeth = Gwefan DEC)



## YN YSTOD Y PANDEMIG A'R LOCKDOWN Y clo mawr

Erbyn hyn, daeth y geiriau uchod yn rhan o'n sgwrs ddyddiol, a ninnau wedi hen arfer aros i mewn, cadw yn ddigon pell oddi wrth ein gilydd ac wrth gwrs, gwisgo mwgwd felltith. Diolch byth, yn awr, clywn sôn am lacio rhywfaint ar y cyfyngiadau, ac y cawn lawer mwy o ryddid. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod wedi bod yn eithaf prysur tros yr amser, gyda diolch i'r ffaith fy mod yn iach ac yn medru mynd o gwmpas, cymdogion ffeind a chymwynasgar, a'r gofawr sydd wedi ymdrechu, trwy bob anhawster, i ddod i edrych ar fy ôl.

Gan fod fy nheulu i gyd yn byw i ffwrdd, rhai ym mherffedion Lloegr ac eraill yng ngogledd yr Alban, toedd dim ffordd i mi gael eu gweld, a'r unig



obaith oedd gennyf oedd cysylltu â nhw trwy ddefnyddio Facebook.

Rwyf wedi treulio oriau ar y *mobility scooter*, allan yn yr awyr agored ymhell o'r prom, y dre a'r siopau. Allan hefyd o glyw pobl yn siarad am y pandemig, Covid a safio'r NHS, rhai yn gwisgo eu mwgwd yn ufudd, eraill heb ddim ac yn coelio neb.

Felly, y bore cyntaf i ni fynd i *lockdown* meddyliais wrthyf fy hun nad dyma oedd y tro cyntaf i mi fynd i 'neilltuaeth' gan fy mod wedi dioddef o'r diptheria pan oeddwn i yn blentyn bach. Cawsom ( fy chwaer a finnau) ein dwyn i ysbyty ar Gae Mona yng Ngwalchmai am fis, a hynny ar y noson cyn y Nadolig. Ar fore'r Nadolig, daethpwyd ag Elwyn fy mrawd i mewn am ddeg diwrnod. Y fo oedd y *carrier*.

### Facebook

Penderfynais roi hyn i lawr ar bapur a'i bostio ar y gweplyfr. Cyn hir, cefais ateb gan nai i mi, mab Elwyn fy mrawd, yn dweud na wyddai o ddim am hyn ac yn diolch i mi am adael iddo ddysgu rhywbeth newydd am ei dad, sydd erbyn hyn wedi gadael ein byd. Cynigiodd fod y syniad o ysgrifennu blog yn un da ac y dylwn i ddal ati. Sylweddolais fod llawer na wyddai fy nheulu i am fy ngorffennol, ac felly dechreuais ysgrifennu hanesion bach difyr fel atgofion o'm plentyndod a hanesion am Lanfair a Sir Fôn. Cyn

parhad ar dudalen 2

## Allweddeiriau 6 – Saint

Pan glywn y gair ‘saint’, mae’n debyg mai’r hyn a ddaw i’n meddwl yw criw dethol o bobl arbennig o sanctaidd. Ond beth sydd gan y Beibl i’w ddweud am ystyr y gair hwn?

Gair cyffredin iawn yw ‘saint’ (*hagioi*) yn y Testament Newydd. Yn sylfaenol, mae’r gair hwn yn golygu criw o bobl sydd wedi eu neilltuo neu eu cysegru i Dduw. Er enghraifft, mae Paul yn cychwyn ei lythyr at y Philipiaid trwy ddweud: ‘Paul a Timotheus, gweision Crist Iesu, at yr holl *saint* yng Nghrist Iesu sydd yn Philipi ...’ (Philipiaid 1:1). Pwy oedd y ‘saint’ hyn? Ai criw bach a dethol o bobl arbennig o sanctaidd oedden nhw? Wel, mewn gair, na! Gair arall am Gristnogion yw ‘saint’. Yn wir, yn ôl y Testament Newydd, mae *pob* Cristion sy’n credu yn Iesu yn ‘sant’ gan ein bod ni i gyd wedi’n neilltuo a’n cysegru i Dduw. Fel y dywedodd Iwan Rhys Jones yn ei gyfrol *Geiriau Bywyd* (2017): ‘Nid gwobr i’w hennill ar ddiwedd oes yw cael eich enwi yn sant, ond braint y berthynas bresennol â’r Duw a’ch galwodd ac a’ch carodd yn Iesu Grist ac a’ch dygodd i gymdeithas gyda’i bobl’ (t. 41). Clod i Dduw ei fod – yn ei ras a’i gariad – wedi’n gwneud ni’n ‘saint’ trwy Iesu:

Yr Iesu sy’n fy ngwadd  
i dderbyn gyda’i saint  
ffydd, gobaith, cariad pur a hedd  
a phob rhyw nefol fraint.

Gwilym Tudur

# SAINT

## YN YSTOD Y PANDEMIG A’R LOCKDOWN – parhad

diwedd yr ail wythnos, dechreuais glywed o Awstralia, De Affrica, yr Eidal, yr Iwerddon heb sôn am Loegr ac wrth gwrs o Gymru. Cefais negeseuon gan hen ffrindiau, derbyn lluniau hen wynebâu a llefydd oedd yn gyfarwydd i mi pan oeddwn i’n blentyn. Dod hefyd i ddarganfod aelodau o’m teulu nad oedd gen i syniad amdanynt o’r blaen. Yr wythnos yma, rwyf wedi cael neges o wlad Groeg! Be well fedrai hen wraig naw deg oed ei ddisgwyl?

### Zoom

Yn awr. Rwy’n brysur yn gosod y cwbl gyda’i gilydd i’w cadw i’r dyfodol.

Rwyf wedi cael llawer o bleser yn gwneud hyn, ond mae’n amser i mi roi’r gorau iddi. Difyrwrch arall oedd cael ymuno â chapel Pen-y-bont mewn gwasanaeth ar Zoom bob bore Sul. Roedd hynny’n brofiad gwerth chweil a bendithiol, tasa ddim ond gweld yr ‘henoed’, pob un gyda’i dabled neu laptop yn trin y dechnoleg fel pobl ifanc, a dod ar draws wynebâu cyfarwydd. Gwych.

Gobeithio bod y gwaetha trosodd, ac y cawn ni fynd yn ôl i normal, ac y bydd hwnnw wedi newid er gwell. Yn y cyfamser, daliwch ati. Fe ddaw haul ar fryn.

Mabel Winterburn, Porth-cawl

## Tips gweddi

Nid rhywbeth i’w wneud mewn oedfa yn unig yw gweddi. Mae’n ffordd o fyw. Trwy weddi rydym yn meithrin perthynas gyda’r Arglwydd gan fod yn ymwybodol ei fod gyda ni trwy’r adeg. Felly, mae angen i weddi fod yn rhan o’n bywyd pob dydd. Dyma rai awgrymiadau ar ddechrau 2022.



### Tip 1

Gweddiwch yn syml, gweddiwch yn fyr, gweddiwch yn aml.

### Tip 2

Darllenwch adnod a gweddiwch yr hyn a ddaw i’ch meddwl.

### Tip 3

Gweddiwch yn y fan lle rydych am yr hyn sy’n digwydd o’ch cwmpas. Yn y gwaith, gartref, yn y siop ac yn y ciw, wrth gerdded, gyrru’r car (ond peidiwch cau eich llygaid bryd hynny) neu wrth wneud ymarfer corff. Rhaid bod yn fwriadus neu ni fyddwn yn gweddi.

### Tip 4

Gweddiwch yn ddisgwylgar. Byddwch yn agored i atebion Duw i’ch gweddi.

### Tip 5

Darllenwch ddysgeidiaeth Iesu ar weddi Mathew pennod 6 adnodau 5–15.

## Coleg yr Annibynwyr Cymraeg Cyrsgiau’r Gwanwyn

Darllen, deall a dehongli  
Gair Duw heddiw

Astudio’r Beibl yn ein  
cyd-destun ni

7 o’r gloch, nos Lun 7 Mawrth -  
Testament Newydd y Beibl  
CATRIN HAF WILLIAMS,  
Diwinyddiaeth ac Astudiaethau  
Crefyddol, PCYDSS

Dirnad a datblygu doniau yn  
ein heglwysi

7 o’r gloch, nos Lun 14 Mawrth  
BETI-WYN JAMES, Caerfyrddin

7 o’r gloch, nos Fawrth 22 Mawrth  
ALUN TUDUR, Caerdydd

CWRS DEHONGLI’R  
YSGRYTHURAU  
Yr Actau a’r Epistolau

7 o’r gloch, nosweithiau Mercher  
gan ddechrau 16 Chwefror  
ALED JONES, Cyfarwyddwr a  
Chydylynydd Hyfforddi’r Coleg

Croeso cynnes iawn i bawb

Bydd pob cwrs ar-lein eleni

Manylion pellach a dolenni  
Zoom oddi wrth  
aled@colegyrannibynwyr.cymru

# Yr Adran Gydenwadol

## Oes 'na ddyfodol i gynnyrch Masnach Deg?



Ar drothwy pythefnos Masnach Deg (o 21 Chwefror ymlaen) ac yn sgil penderfyniad llawer o gwmnïau rhyngwladol a rhai archfarchnadoedd i adael y mudiad Fairtrade a chreu brandiau masnach deg mewnol iddynt eu hunain, mae Aled Davies yn holi oes 'na ddyfodol i gynnyrch Masnach Deg.

Ers dros 30 mlynedd rydym wedi dod i arfer gweld logo du, glas a gwyrdd Masnach Deg ar gynnyrch yn y siopau, ar eitemau bob dydd fel te a choffi, reis a chnau, siocled a mêl, a bydd llawer yn chwilio'n fwrriadol am y logo hwnnw. O brynu'r cynnyrch a logo ac enw Fairtrade arno, mi fedrwn fod yn dawel ein meddwl bod yr hyn a brynwn yn foesol gywir ac yn deg i bob rhan o'r gadwyn gynhyrchu a dosbarthu, a hynny o ran y ffermwyr lleol a'r amgylchedd. Mae masnach deg yn drefniant sydd wedi'i gynllunio i helpu cynhyrchwyr mewn gwledydd sy'n datblygu i gael bywoliaeth gynaliadwy a theg, gan warchod yr amgylchedd yr un pryd.

### 30 mlynedd o weithredu

Mae Masnach Deg wedi bodoli ers 30 mlynedd, sy'n golygu 30 mlynedd o weld cynnyrch Masnach Deg yn ein siopau lleol a 30 mlynedd o effaith gadarnhaol ar ffermwyr, gweithwyr, a chymunedau tlawd ledled y byd. Dechreuwyd Masnach Deg yn 1989 mewn ymateb i frwydrau enbyd ffermwyr coffi ym Mecsico yn dilyn cwmp ym mhirsiau coffi'r byd ar ddiwedd y 1980au, a sefydlwyd Masnach Deg ym Mhrydain yn 1992. Yn dilyn apeliadau parhaus am degwch yn y fasnach goffi gan ffermwyr o Fecsico, sefydlwyd Masnach Deg gan CAFOD, Cymorth Cristnogol, Oxfam a Traidcraft, ymhlith eraill.

Y cynnyrch Masnach Deg swyddogol cyntaf oedd bar siocled Maya Gold gan Green & Black, ac yn fuan wedyn fe'i dilynwyd gan goffi Cafédirect, coffi Percol a the Clipper. Erbyn hyn mae 1.7 miliwn o ffermwyr a gweithwyr Masnach Deg ar draws 73 o wledydd yn rhan o'r cynllun, a'r cynnyrch yn amrywio o hufen iâu i aur i flodau, ac i gynhyrchion harddwch; a dweud y gwir mae dros 4,500 o eitemau wedi'u hardystio gan Fasnach Deg.

Yn ôl ymchwil ddiweddar mae 93% o'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig yn adnabod logo Masnach Deg, ac mae un o bob pedwar

siopwr bellach yn prynu nifer o eitemau Masnach Deg yn rheolaidd. Mae un o bob pedair cwpanaid o goffi a yfir ym Mhrydain yn gynnyrch Masnach Deg, ac mae dau o bob tri banana sy'n cael eu gwerthu hefyd yn rhai Masnach Deg. Mae dewis Masnach Deg hefyd yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd gan fod ei safonau'n cynnwys meini prawf amgylcheddol, megis gwarchod yr amgylchedd naturiol, gwahardd y defnydd o bleiddiaid niweidiol, lleihau'r defnydd o ynni a dŵr, a thyfu mewn cytgord â'r amgylchedd lleol.

Bu sawl carreg filltir nodedig ar hyd y daith: cwmni Nestlé yn ymrwmo i ddefnyddio siocled Masnach Deg yn eu bariau KitKat yn 2008, ac yna Cadbury yn cyhoeddi yn 2009 y byddai'r siocled eiconig Dairy Milk hefyd yn cario'r logo, gyda gwerthiant o dros 350 miliwn o farrau dros y byd. Cyhoeddodd Sainsbury's y byddai eu holl goffi a the dan frand yr archfarchnad yn Fasnach Deg, a chyflwynodd Tesco hefyd nifer o'u heitemau o dan frand Masnach Deg.

### Bygythiadau i'r dyfodol?

Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o'r cwmnïau hyn wedi tyngu'n ôl o'r ymrwymiad hwnnw, gan greu brandiau masnach deg eu hunain. Mae Cadbury, sy'n rhan o gwmni enfawr Mondelez International erbyn hyn, bellach yn defnyddio'r enw Cocoa Life, a Nestlé yn defnyddio'r arwyddair 'Responsibly Sourced Cocoa' tra mae sawl archfarchnad yn monitro'u hunain, neu'n defnyddio logo'r Rainforest Alliance. Erbyn hyn, nid yw KitKat, Dairy Milk, na the a choffi Tesco na Sainsbury's yn cario marc Masnach Deg, ond yn hytrach logo wedi ei greu ganddyn nhw eu hunain yn datgan bod y cynnyrch yn fasnach deg. Mae llawer o bobl o fewn y diwydiant arolygu safonau masnach deg yn poeni am hyn, gan nad oes bellach ffordd gytbwys o 'safoni' masnach deg.

### Yr alwad i weithredu

Felly, wrth agosáu at bythefnos masnach deg, mae galw arnom unwaith eto i gefnogi'r ymgyrch, gan geisio prynu nwyddau sy'n cydymffurfio'n llawn â safonau Fairtrade. Mae marc swyddogol Masnach Deg yn gwarantu isafswm pris y cytunwyd arno gyda chynhyrchwyr. Bydd y pris hwn yn talu'r gost

cynhyrchu, ac ar ben hyn telir premiwm ychwanegol i'w fuddsoddi mewn prosiectau sy'n gwella datblygiad cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal. Mae'r cynllun hefyd yn darparu cefnogaeth a hyfforddiant am ddim, ac arolygaeth gan bwyllgorau gweithwyr sy'n caniatáu i fenywod chwarae rôl weithredol ynddynt.

Rhaid cytuno i amodau gwaith diogel a theg, a sicrhau dulliau cynhyrchu amgylcheddol gyfrifol a chynaliadwy. Dim ond trwy brynu cynnyrch swyddogol Masnach Deg y mae modd sicrhau'r parhad hwn.

Trefnir materion masnach deg yng Nghymru gan elusen Cymru Masnach Deg, gyda'i nod o gefnogi, cynyddu a hyrwyddo'r mudiad Masnach Deg yng Nghymru. Ers sefydlu'r elusen, mae wedi bod yn ymgyrchu dros hawliau ffermwyr a chynhyrchwyr mewn gwledydd incwm isel sy'n byw gydag effeithiau newid hinsawdd. Mae'n gweithio gyda dros 30 o gymunedau Masnach Deg ledled y wlad, mewn cyswllt rheolaidd â 200 o ysgolion, 18 awdurdod lleol ac wyth o fanwerthwyr Masnach Deg. Mae hefyd mewn cyswllt rheolaidd â grwpiau ffydd, prifysgolion a busnesau yng Nghymru er mwyn codi'r ymwybyddiaeth o bwysigrwydd masnach deg. Cymru Masnach Deg sydd hefyd yn cydlynu ymgyrchoedd Pythefnos Masnach Deg a theithiau cynhyrchwyr Masnach Deg yng Nghymru. Gall Cymru ymfalchio yn ei statws o fod y wlad gyntaf yn y byd i dderbyn statws Gwlad Masnach Deg yn 2008, a diolch am y cyfan sydd wedi digwydd ers hynny. Ond mae llawer mwy o waith eto i'w wneud, ac mae'r elusen yn ein gwahodd ninnau fel Cristnogion ac eglwysi i ymuno yn yr ymgyrch. Ceir mwy o wybodaeth ar eu gwefan: <https://masnachdeg.cymru/>

Oes 'na ddyfodol i gynnyrch sy'n wir yn cyrraedd y safon o ran bod yn fasnach deg? Mae hynny yn ein dwylo ni - y rhai sy'n siopa. Beth am herio'r lleoedd hynny lle byddwn yn siopa, a gofyn am gynnyrch sy'n cyrraedd y safon? A chofiwch fod nifer o siopau ar hyd a lled Cymru sy'n arbenigo mewn cynnyrch Masnach Deg. Cefnogwn y rheini hefyd lle bynnag y medrwn.

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 20 Chwefror, am 7:30yh (ailddarlledir am 11:30yb

y Sul canlynol)

Ar y rhaglen, byddwn yn nodi mis hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywedol (LHDT). Bydd Ryland yn cwrdd â Huw Jones, person ifanc sydd yn falch o fod yn hoyw ac yn Gristion, a chawn glywed gan gaplan sy'n angerddol dros greu eglwys sy'n gynhwysol i bawb.

Gallwch weld cylchlythyr mis Chwefror *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* drwy ddilyn y ddolen hon: [Dechrau Canu Dechrau Canmol \(adobe.com\)](https://www.adobe.com)

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 20 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp

Cyfle i glywed eto raglen lle mae Branwen Gwyn yn cyflwyno'r pedwarawd Naomi Griffiths, Sioned Mai Watkins, Aled Wyn Thomas a Rhys Griffiths yn canu emynau.

Oedfa Radio Cymru

Sul, 20 Chwefror, am 12:00yp

Gwasanaeth dan ofal Aron Treharne, Caerfyrddin

## Dydd Gweddi 2022



Cynhelir Dydd Gweddi'r Byd ddydd Gwener, 4 Mawrth 2022. Paratowyd y gwasanaeth gan Chwiorydd Cristnogol Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Thema'r gwasanaeth eleni yw addewid Duw: 'Myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnir ar eich cyfer' – adnod o Jeremeia 29. Wrth ganolbwyntio ar ryddid, maddeuant, cyfiawnder a thangnefedd Duw, cawn weld sut y gall yr addewid hwn gynnig gobraith i bawb.

Dechrewyd cynnal dyddiau unigol o weddi a drefnwyd gan enwadau unigol yn America yng nghanol y 1880au. Bellach, daeth yn Ddydd Gweddi rhyngwladol ac ecwmenaidd. Pan fydd y dydd yn gwawrio yng Nghymru fore Gwener, 4 Mawrth 2022, bydd miliynau o bobol eisoes wedi addoli gyda gwraidd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a throstyn nhw, gan ddechrau â'r oedfaon cyntaf yn Samoa. Rydym yn rhan o don enfawr o weddi a fydd yn cofleidio'r byd nes cynnal yr oedfaon olaf wrth i'r haul fachlud yn Samoa Americanaidd. Dyna wefr yw ymuno â phobl mewn dros 120 o wledydd ac ynsoedd ledled y byd. Cofiwch fod yn rhan ohono.

Er bod cyfyngiadau Covid wedi llacio ychydig ers y llynedd, gwnawn ein gorau i gynnal ein gwasanaethau ar 4 Mawrth eleni drwy sicrhau ein bod yn cadw'n ddiogel. Os na fydd yn bosib chi gwrdd wyneb yn wyneb, gellir naill ai gynnal oedfa dros Zoom neu ddewis dyddiad arall a fydd yn gyfleus i chi. Profwyd cryn lwyddiant y llynedd wrth gynnal yr oedfa yn rhithiol neu'n ddiogel mewn ambell ardal.

Os hoffech gael copi o'r oedfa, cysylltwch â Margaret Morgan ar 01978 756717. Fe fyddai'n braf cael casgliad o luniau o wahanol oedfaon sy'n cael eu cynnal dros y wlad. Danfonwch eich lluniau (un llun grŵp jpeg) at [beti.wyn@icloud.com](mailto:beti.wyn@icloud.com) neu mae croeso i chi eu gosod ar dudalen Facebook Dydd Gweddi'r Byd

Dymunir pob llwyddiant i chi wrth drefnu ar gyfer Dydd Gweddi 2022.

*Parchg Beti Wyn James  
Parchg Carys Ann  
Swyddogion Cyhoeddusrwydd*

## Newyddion gan Cytûn, Eglwysi Ynghyd yng Nghymru

Mae Bwletin Polisi newydd Cytûn wedi'i gyhoeddi ac yn llawn gwybodaeth berthnasol inni fel eglwysi yn ein hymwneud â'n cymunedau a'n gwasanaeth iddynt. Gellir ei weld yn gyflawn o ddilyn y ddolen hon: <https://www.cytun.co.uk/hafan/bwletin-polisi-chwef-mawrth-2022/>

Ymhlith y pynciau a drafodir yn y rhifyn hwn mae'r canlynol:

- Cynnal ceiswyr lloches yng Nghymru drwy Housing Justice Cymru
- Rhoi terfyn ar gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru o fis Mawrth
- Etifeddiaeth cynllun Sul yr Hinsawdd yn dilyn cynhadledd hinsawdd COP26
- Trefniadau newydd ar gyfer datganoli yn y Deyrnas Unedig
- Cyhoeddi'r dogfennau terfynol ar gyfer y cwricwlwm ysgolion newydd yng Nghymru i'w cyflwyno ym mis Medi, gan gynnwys y canllawiau ar y pwnc newydd 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg' sy'n disodli Addysg Grefyddol
- Gweithdai defnyddiol ar-lein ar Ffydd yn nyfodol adeiladau eglwysig yng Nghymru. Mae'r rhain yn agored i bawb ac yn cynnwys pynciau fel ymgysylltu â'n cymunedau a ffridd arloesol o godi arian.
- Cynllun cymorth tanwydd gaeaf Cymru
- Newyddion am ddeddfwriaeth yn San Steffan a phryderon ein haelod eglwysi. Byddem yn eich annog i gymryd diddordeb yn y mesurau hyn: Bil Cenedligrwydd a Ffiniau, sy'n gwneud diwygiadau sylfaenol i drefniadau'r Deyrnas Unedig ar gyfer derbyn ac asesu'r rhai sy'n ceisio lloches; Bil yr Heddlu, Troseddau, Dedfrydu a Llysoedd, fydd yn gwneud bywyd yn anodd i Deithwyr a Sipsiwn ac yn rhoi hawliau ychwanegol i'r heddlu i atal protestiadau. Mae ymgynghori ar hyn o bryd ar ddiwygiadau posibl i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a byddai Cytûn yn croesawu cyfraniadau i'w hymateb iddo.

Diolchwn yn fawr i Gethin Rhys am y Bwletin ac am ei waith ar ein rhan.

### Cristnogaeth 21

Eisiau dod yn rhan o'r tîm? Eisiau gwneud gwahaniaeth?

**Galwad am wirfoddolwyr!**

Mae C21 yn elusen sy'n cynnig llwyfan i ddehongliadau radical, rhyddfrydol a blaengar o'r ffydd Gristnogol a thrwy hynny rydym yn hwyluso trafodaeth gyhoeddus a myfyrdod personol ar agweddau o Gristnogaeth heddiw.

Rydym yn awyddus i ehangu'r tîm sy'n cynorthwyo ei gilydd i arwain a datblygu'r elusen. Rydym yn chwilio yn benodol am unigolion sydd â sgiliau da ym maes technoleg gwybodaeth i roi arweiniad a chefnogaeth i'r swyddogion a'r Pwyllgor Llywio. Byddai sgiliau yn y maes clyweledol hefyd o fantais. Does dim tâl ond fe anrhydeddir unrhyw gostau perthnasol.

Os ydych chi'n meddwl y gallech gyfrannu at ddatblygiad C21 yn y modd hwn neu mewn ffridd eraill, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy'r manylion cyswllt canlynol:

[Cristnogaeth21@gmail.com](mailto:Cristnogaeth21@gmail.com) 07966 936297  
[www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)  
(Elusen gofrestredig: 1011618).

### Dewch i weithio gyda Cymorth Cristnogol Cymru: Swyddog Addysg ac Ieuenctid

Mae **Swyddog Addysg ac Ieuenctid** yn swydd allweddol newydd o fewn tîm Cymru. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio i yrru'r cysylltiad gydag ysgolion a phobl ifanc yng Nghymru, gyda'r nod o adeiladu cefnogaeth letach a dyfnach ar draws codi arian, ymgyrchu ac addoli.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ffurfio a dyfnhau partneriaethau strategol yn y sector addysg yng Nghymru a chyda rhwydweithiau a chynghreiriau perthnasol, er mwyn hybu a chynnig adnoddau dysgu effeithiol am gyfiawnder byd-eang, yn cynnwys datblygu cynllun achrediad Cymdogion Byd-eang Cymorth Cristnogol ar gyfer cwricwlwm Cymru. Trwy gydweithio ag eglwysi, bydd y rôl hefyd yn gweithio i gryfhau, ysgogi, ysbrydoli a chynnig adnoddau rhwydweithiau ieuenctid/oedolion ifanc strategol a'u harweinyddwyr yng Nghymru i fod yn rhan o waith ehangach Cymorth Cristnogol i roi eu ffydd ar waith.

Mae hon yn rôl ran amser (28 awr yr wythnos) lle byddwch yn gweithio o gartref yng Nghymru.

Am fwy o wybodaeth ac i ymgeisio, ewch i <https://jobs.christianaid.org.uk/vacancy/education--youth-officer-wales--swyddog-addysg-ac-ieuenctid-cymru-3571/3589/description/>

Dyddiad cau: 20 Chwefror 2022

## Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

Fel deunydd ar gyfer myfyrdod personol ac astudiaeth grŵp, byddwn yn parhau hyd y Grawys â'r myfyrdodau o'r gyfrol *The Prince of Peace in a World of Wars* gan David Kerrigan.

### 15 Rhoi theori ar waith

#### Heddwch, gwleidyddiaeth a'n byd cydgysylltiedig

Darllen: Rhufeiniad 13: 1–7

**Dyma pam hefyd yr ydych yn talu trethi, oherwydd gwasanaethu Duw y mae'r awdurdodau wrth fod yn ddyfal yn y gwaith hwn. Talwch i bob un ohonynt beth bynnag sy'n ddyledus, boed dreth, boed doll, boed barch, boed anrhydedd. (adn. 6–7)**

Faint o weithiau ydych chi wedi clywed gwleidyddion yn dweud y dylai Cristnogion gadw eu trwynau allan o wleidyddiaeth? Fel arfer, fe gaiff ei ddweud pan fo beirniadaeth yn taro'n agos at adref a phan fo ffaeiddau mewn polisïau rhyw blaid o dan y chwyddwydr.

Rydym eisoes wedi gweld bod calon Duw yn dymuno gweld adfer shalom, ond beth pe byddem ni'n cytuno mai amcan gwleidyddiaeth yw gwneud yr un fath? Mae llawer o wleidyddion, o wrando ar eu hareithiau, yn credu mai'r amcan yw creu cyfoeth a llewyrch economaidd. Er bod hynny'n rhan o'r amcan, creu shalom ddylai'r nod uchaf fod, nid creu pobl sy'n gyfoethog ond dan bwysau ac yn anhapus, neu bobl sydd wedi dod yn gyfoethog drwy gymryd adnoddau gan eraill neu o greadigaeth Dduw.

Mae'r Beibl yn llawn o bobl dduwiol oedd ynglŷn â gwleidyddiaeth. Fe ddefnyddiwyd Joseff gan Dduw mewn sefyllfa o awdurdod dros holl wlad yr Aiff (Genesis 41:41); daeth Daniel yn drydydd person pwysicaf y deyrnas (Daniel 5:29); fe achubodd Esther ei phobl oherwydd ei safle breintiedig (Esther 8:5); ac fe fedrodd Nehemeia arwain y gwaith o ailadeiladu muriau Jerwsalem oherwydd ei gysylltiadau â'r brenin (Nehemeia 2:4–6). Fe ddywedir llai am unigolion allweddol yn y Testament Newydd, oherwydd mae'r ffocws yn awr ar fywyd Iesu a'r Eglwys Fore. Ond mae'n eglur o'n testun ar gyfer heddiw fod lle i awdurdodau llywodraethol oherwydd bod eu hawdurdod yn dod oddi wrth Dduw.

Dydw i ddim yn argymhell y dylai Cristnogion bleidleisio dros blaid arbennig – coch, glas,

melyn, gwyrdd neu pa liw bynnag. Byddai'r fath awgrym yn wirion. Mae'n rhaid i bob un ohonom wneud ei benderfyniad ei hun, a bydd hynny'n golygu cyfaddawdu ar brydiau. Ond un peth na allwn ei wneud yw tynnu ein hunain allan o fyd gwleidyddiaeth. Mae ein ffydd yn ein cymell i gymryd rhan, oherwydd ystyr y gair gwleidyddiaeth yn Gymraeg yw 'gwyddor neu gelfyddyd llywodraeth gwlad; bywyd, materion' (GPC).<sup>1</sup>

Fel y gwelsom, os oes un peth y mae gan Dduw gonsŷrn amdano, yna materion bywyd a gwlad ydy'r rheiny – ymhlith holl bobloedd y byd. A'i nod yw heddwch.

Does unlle lle mae bod yn dangnefeddwyr yn fwy perthnasol nag mewn cysylltiadau rhyngwladol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf fe fu gorthrwm treisiol o leisiau oedd yn anghytuno (e.e. Yr Aiff a Syria) ac o leiafrifoedd (e.e. yr Yazidi Cwrdaidd a Rohinga Mwslemaidd Burma, a phob lleiafrif arall yno erbyn hyn),<sup>2</sup> ac o ryfela rhwng cenhedloedd (lawer gwaith gyda chefnogaeth arfau'r gorllewin) yn rhy aml o lawer.

Dydw i ddim yn heddychwyr; dydw i ddim yn credu bod ymladd bob amser yn anghywir. Mae llawer o Gristnogion ac eraill yn heddychwyr, a dylid gwrandao arnynt, ond dydw i ddim dadlau'r safbwynt hwnnw yma. Yn hytrach, fy mhwynt i yw fod rhyfel bob amser yn drychineb, bob amser yn fethiant, bob amser yn achosi dinistr ym mywydau pobl diniwed, ac i'w osgoi bob amser hyd y mae hynny'n ddynol bosibl. Am y rheswm hwn, fe ddylai Cristnogion sydd wedi ymrwymo i fod yn dangnefeddwyr – yn wneuthurwyr heddwch – sicrhau, o leiaf, mai'r opsiwn olaf un bob tro yw rhyfel. Hyd yn oed wedyn, ni ddylid mynd i ryfel ac eithrio drwy ddulliau cymesur ac mewn modd sy'n lleihau'r posibilrwydd o golli bywydau.

Ond mae heddwch, fel y gwelsom, yn golygu llawer mwy nag absenoldeb rhyfel. Dylem felly annog Cristnogion i fod yn rhan, fel pobl o ffydd, yn y prosesau sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar genhedloedd y gwledydd hyn. Nid oherwydd bod gan bobl o ffydd ryw

fonopoli ar ddaioni, synnwyr cyffredin na'r doniau angenrheidiol, ond yn hytrach oherwydd bod gan Gristnogion bethau pwysig i'w cyfrannu o'u traddodiad ffydd eu hunain ar nifer o faterion cenedlaethol a rhyngwladol.

Fel dilynwyr i'r un a ddaeth i wasanaethu ac nid i gael ei wasanaethu, fe allwn siapiro'r sgwrs genedlaethol yn y fath fodd fel bod ein tuedd ddynol i edrych ar ein hól ein hunain yn unig yn cael ei thymheru gan ein cyfrifoldeb i ofalu am eraill, yn enwedig o ran lles cymdeithasol a'n triniaeth o ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Fel rhai sy'n derbyn o rad ras Duw, fe allwn ddwyn sylw at fantais bod yn bobl haelionus sy'n ymateb yn gyflym i bob math o drychinebau rhyngwladol. (Eto, er eglurdeb, dydy hyn ddim yn golygu bod haelioni yn nodwedd sy'n perthyn i Gristnogion yn unig.) Fel rhai sy'n ceisio Teyrnas Dduw, un ffordd effeithiol sy'n agored inni o amlygu teyrnasiad Duw yw rheoli economïau lleol a rhyngwladol, gan fynd i'r afael â materion fel creu swyddi, cyflogau teg, amgylchiadau gwaith diogel, tai fforddiadwy a diogelu'n hamgylchedd.

Ar lefel ryngwladol, dylem ymwneud â materion rhyddid crefyddol fel rhan o'n hymrwymiad i hawliau dynol sylfaenol. Dros y byd i gyd fe welwn Gristnogion yn cael eu herlid, ac efallai mai gennym ni mae'r unig leisiau sydd gan y rhain i'w codi yn erbyn y gorthrwm y maen nhw'n ei ddiodeff. Ond os yw ein hymrwymiad yn golygu unrhyw beth, mae'n rhaid inni sefyll efo rhai sy'n arddel credoau eraill hefyd. Yn anffodus, mae yna ormod o achosion o Fwslemiaid yn erlid Cristnogion, ond nid yw'r Cristion ar ei ben ei hun yn ei ddiodeffaint dros ei ffydd, fel y gwelwn yn yr esiamplau diweddar o'r Rohinga Mwslemaidd yn Burma a'r Ahmadi yn Pacistan ac mewn manau eraill.

Dylid annog y Cristion felly i fod yn wleidyddol weithredol, yn aelod o blaid wleidyddol, yn sgrifennu at gynrychiolwyr seneddol, yn barod i ymuno yn hytrach na sefyll y tu allan. Er hynny, rwy'n pwysleisio mai'r nod yw dwyn teyrnas o heddwch duwiol a chyfiawnder i fodolaeth, nid hyrwyddo un blaid yn fwy na'r llall. Byddai'n anodd dadlau o blaid doethineb dechrau o'r dde neu'r chwith gwleidyddol, yn arbennig yn y nod yma. Yr hyn nad yw'n dderbyniol yw cilio'n ôl a dweud nad oes a wnelo hyn ddim â'm ffydd. Mae a wnelo fo bopeth â'n ffydd! Daeth Iesu i ganol ein profiad dynol er mwyn gwaredu ein byd a'i bobl. Mae gwleidyddiaeth yn rhan allweddol o'r broses waredigol honno.

<sup>1</sup> Mae'r gair Saesneg *politics* o'i darddiad Groegaidd yn golygu, yn syml, faterion y ddinas.

<sup>2</sup> Flwyddyn ers *coup* y fyddin yn Myanmar, Chwefror 2021, mae pob lleiafrif dan fygythiad yno a'r wlad mewn cyflwr o ryfel cartref.

## Rhagrithwyr

Dros yr wythnosau diwethaf mae cwestiynau mawr wedi codi ynglŷn ag ymddygiad gwleidyddion a swyddogion llywodraeth San Steffan. Clywir yr un cyhuddiadau'n cael eu gwneud mewn bwletinâu newyddion rif y gwllith: bod y cyhoedd wedi cadw at gyfyngiadau tynn mewn sefyllfaoedd torcalonnus, tra'r oedd y rhai mewn grym yn rhagrithwyr. Yn gyhoeddus, roeddent yn uchel eu cloch yn cymell pawb i lynu at y cyfyngiadau a luniwyd ganddynt, ond y tu ôl i ddrysau caeedig, roeddynt yn bihafio fel petaent uwchlaw'r gyfraith.

### Rhinweddau

Yn naturiol, mae hyn wedi achosi embaras i'r llywodraeth ac wedi gwneud



i nifer feddwl yn ddwys ynglŷn â pha rinweddau yr ydym yn dymuno'u gweld yn ein harweinwyr. Ond i'r Cristion sy'n ceisio gwneud synnwyr o'r holl sefyllfa, siawns nad oes yna hefyd rybudd clir yng ngeiriau Iesu Grist yn y Bregeth ar y Mynydd:

Pam yr wyt yn edrych ar y brycheuyn sydd yn llygad dy gyfaill, a thithau heb sylwi ar y trawst sydd yn dy lygad dy hun? Neu sut y dywedi wrth dy gyfaill, 'Gad imi dynnu allan y brycheuyn o'th lygad di', a dyna drawst yn dy lygad dy hun? Ragrithiwr, yn gyntaf tyn y trawst allan o'th lygad dy hun, ac yna fe weli yn ddigon eglur i dynnu'r brycheuyn o lygad dy gyfaill. (Mathew 7:3-5)

Sylwch nad yw Iesu'n dweud bod cyfeirio at feiau (brycheuyn) rhywun arall ynddo'i hun yn anghywir. Wrth i ni ddarllen trwy'r Efengylau, gwelwn fod Iesu yn gyson yn tynnu sylw at ragrith, pechod a'r anghyfiawnder oedd o'i gwmpas. Y broblem yw gwneud hynny heb gydnabod ein heuogrwydd ni – barnu eraill heb gyffesu ein bod ni'n hunain yn haeddu barn hefyd.

### Rhybudd a gobaith

Mor hawdd yw bod yn hunangyfiawn

wrth gymharu'n hunain â phobl eraill! Ond mewn ffordd annisgwyl mae dysgeidiaeth Iesu yn Luc 18 yn rhoi rhybudd a gobaith, hyd yn oed i'r hunangyfiawn! Yn nameg y Pharisead a'r casglwr trethi, mae ein disgwyliaid yn cael eu troi ben i waered. Nid y dyn 'duwiol' ac uchel ei barch ond y casglwr trethi, baw isa'r domen, sy'n mynd adref 'a'i berthynas gyda Duw yn iawn.' (Luc 18:14 beibl.net)

Pam ydw i'n dweud fod yna oibaith hyd yn oed i'r hunangyfiawn yn y ddameg hon? Oherwydd ei bod yn ein dysgu mai'r unig ffordd at Dduw i bechadur yw trwy syrthio ar ein bai, a gofyn i Dduw am faddeuant. A chan fod Iesu, wrth fynd i'r groes, wedi delio â phechod unwaith ac am byth, mae'r Efengyl yn gwahodd pobl hunangyfiawn, a'r rhai sydd wedi'u llethu gan euogrwydd, oll i edifarhau a derbyn maddeuant yng Nghrist, waeth beth yw natur eu pechod.

Dyma un sy'n caru maddau i bechaduriaid mawr eu bai; diolch iddo byth am gofio llwch y llawr.

(439 Cf)

Rhodri Glyn

(allan o *Llais Bro Aled*, 30 Ionawr 2022)

## Capel Heol Awst

Roedd yn ddydd Sul arbennig iawn ar 5 Medi pan ailagorodd capel Heol Awst ar ôl cyfnod o tua blwyddyn a hanner ar gau. Ers hynny, rydym wedi bod yn ffodus a diolchgar ein bod wedi medru cael gwasanaeth gwahanol bregethwyr i gynnal oedfa ar fore neu brynawn bob dydd Sul.

Ar fore Sul 26 Medi cawsom y pleser o gynnal Oedfa Maer y Dref, y Cynghorydd Gareth John yng nghapel Heol Awst, gyda'r Parchedig Beti-Wyn James, Caplan y Maer yn pregethu.

Ar fore Sul, 17 Hydref cynhaliwyd ein gwasanaeth Diolchgarwch pan gymerwyd rhan gan ein haelodau. Fel arfer, rydym yn gofyn am gyfraniadau o ffrwythau, llysiau neu flodau i'w dosbarthu ar ôl y dydd i aelodau nad oedd yn medru bod yn bresennol



oherwydd afiechyd neu lesgeidd ond, oherwydd y feirws Covid-19 penderfynwyd gwneud casgliad ariannol tuag at y banc bwyd yng Nghaerfyrddin, a phleser o'r mwyaf oedd i'r trysorydd drosglwyddo'r swm o £463.00 i'r elusen hon eleni.

### Tymor yr Adfent

Ar fore Sul cyntaf yr Adfent, 30 Tachwedd, cynhaliwyd ein gwasanaeth Naw Llith a Charol fel arfer, gydag aelodau'r Capel yn cymryd rhan. Ar y trydydd Sul o'r Adfent, 12 Rhagfyr cynhaliwyd gwasanaeth teuluol y Nadolig, gyda sawl aelod, o wahanol oedran, yn cymryd rhan. Cawsom wasanaeth bendithiol iawn ond, yn anffodus, nid oedd Siôn Corn yn gweld ei ffordd yn glir i ddod atom eleni ac ni cawsom ein parti arferol oherwydd y feirws. Roedd y casgliad yn mynd tuag at Gronfa Elusennau'r Capel.

Diolch i'r ieuenticid a'r aelodau sydd wedi cymryd rhan yn ystod y Tymor yma. Yn anffodus oherwydd bod y feirws wedi gwaethygu dros y gwyliau bu'n rhaid i ni gau eto ym mis Ionawr 2022, gan obeithio ailagor ym mis Chwefror.

Margaret Davies

## PROSIECT DIGIDOL DENMAN 2022

Gan ein bod ni parhau i fod mewn cyfnod gwahanol i'r arfer, eleni gwahodd yr ysgolion Sul i ddefnyddio'u dychymyg a'u doniau creadigol i greu fideo byr (dim mwy na 2 funud o hyd) ar y thema:

### Rheswm i ddathlu

'Dewch, gadewch i ni ganu'n llawen i'r Arglwydd.'

Salm 95:1

Ym mlwyddyn dathliadau 150 Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, pa resymau sydd gennym i ddathlu fel Cristnogion yng Nghymru heddiw?

Anfoner eich fideos at rhodri@annibynwyr.cymru erbyn 15 Mehefin 2022.

Caiff cyflwyniad o'r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynyddol yng Nghaerfyrddin ym mis Gorffennaf.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thŷ John Penri: 01792 795888 neu undeb@annibynwyr.cymru

## Barn Annibynnol

### 'Cyfaddawd – hwnna ydi o!'

Un o ddywediadau mawr lesu yw'r geiriau yn efengyl Mathew:

'Pam yr wyt yn edrych ar y brycheuyn sydd yn llygad dy frawd, a thithau heb sylwi ar y trawst sydd yn dy lygad dy hun?'

Yn wir, pe bai unigolion a gwledydd yn dilyn y cyfarwyddyd yna byddai llawer llai o drafferth yn y byd.

Cymerwn argyfwng Wcráin, er enghraifft. Mae'r cyfryngau yn Mhrydain a gweddill Ewrop yn rhoi'r bai ar y Rwsiaid drwg, a'r Arlywydd Putin yn arbennig. Y rheiny sydd ar fin goresgyn Wcráin ddiwed. Ond ystyriwn. Pan fo anghyundeb rhwng dwy blaid, y ateb gorau yw nid gweiddi ar y person arall, ond ceisio cyfaddawd. Ond golyga hynny ein bod yn ceisio deall safbwynt y llall. A gweld y trawst yn ein llygad ein hun.

Yn gyntaf, rhaid gwahaniaethu rhwng polisi cartref Vladimir Putin a'i bolisi rhyngwladol. Unben yw e. Does dim gwrthwynebiad i'w *regime* i fod. Mae newyddiadurwyr yno sy'n gofyn gormod o gwestiynau'n cael damweiniau anffodus. Ond o ran polisi tramor, nod Putin, fel pob gwladweinydd, yw sicrhau diogelwch ei wlad ei hun. Ac nid yw'n gallu ymddiried yn y Gorllewin. Beth, methu ymddiried ynon ni, y rhai perffaith?! Wel, fe dâl i ni gofio ambell ffaith.




#### Twyll?

Yn ystod yr ugeinfed ganrif ymosodwyd ddwywaith ar Rwsia o'r gorllewin, yn 1914 a 1941. Heb sôn am Napoleon Bonaparte yn 1812. Rhwng 1941–45 colodd Rwsia o leiaf 20 miliwn o'i phobl. Yn 1990 roedd dwy ran yr Almaen ar fin uno. Er mwyn lleddfu ofnau'r Rwsiaid a gofiai 1941, rhoddodd holl arweinwyr y Gorllewin sicrwydd i

Gorbachev na fyddai NATO'n ehangu i'r dwyrain pe bai'r Almaen yn ailuno. Ddim yn ehangu 'un fodfedd,' yng ngeiriau James Baker, Ysgrifennydd Gwladol yr UDA. Ond yn 1997 gwahoddwyd Pwyl, Hwngari a'r Weriniaeth Tsiec i ymuno â NATO. Teimlai'r Rwsiaid iddyn nhw gael eu twyllo.

#### Ehangu ffiniau

Ers diwedd y Rhyfel Oer mae 14 gwlad newydd yn Nwyrain Ewrop wedi ymuno â chynghrair NATO. Hynny er bod yr hen fwgan, yr Undeb Sofietaidd, wedi diflannu. Gofid arbennig i Foscow oedd gweld gwledydd y Baltig yn ymuno yn 2004. Bellach roedd tiriogaeth NATO'n ffinio â Rwsia ei hun. Yna, mewn cynhadledd yn Bwcaresst yn 2008, cyhoeddodd NATO y bydden nhw'n croesawu Wcráin a Georgia fel aelodau. Nawr dechreuodd y clychau larwm ganu ym Moscow. Onid oedd NATO'n ceisio amgylchynu Rwsia o'r gorllewin a'r de? Oedd y Gorllewin yn anelu at newid y *regime* ym Moscow? Wedi'r cwbl, dyna ddigwyddodd yn Irac, Affganistan a Libya. Wedi datganiad Bwcaresst, ar 7 Awst, 2008, ymosododd milwyr Georgia ar dir De Ossetia yn y Cawcasws lle'r oedd Rwsiaid yn rheoli. Gobeithiai'r Arlywydd Saakashvili, yn ofer, y byddai NATO'n anfon lluoedd i'w gefnogi. Ond gwrthiodd y Rwsiaid y Georgiaid yn ôl.



#### Wcráin

Oddi ar 2008 bu Putin yn cynhyrfu'r dyfroedd yn Wcráin. Mae'n rhoi cymorth i'r Rwsiaid ethnig sy'n byw yn nwyrain y wlad. Ond mater arall yw cychwyn rhyfel go iawn yno. Gallai canlyniadau rhyfel, yn filwrol, yn economaidd ac yn wleidyddol, fod yn drychinebus iddo. Fodd bynnag, mae'r tyndra'n parhau. A'r unig ateb heddychlon yw cyfaddawd rhwng y ddwy ochr.

#### Ciwba

Dyna a fu yn 1962, adeg argyfwng Ciwba. Yr Undeb Sofietaidd am leoli taflegrau ar ynys Ciwba a'r Arlywydd Kennedy'n dweud 'Ddim ar garreg drws America!' Roedd y byd ar fin rhyfel niwclear, ond, do, cafwyd cyfaddawd. Trodd llongau'r Sofietaidd yn ôl o

Giwba, a maes o law tynnodd Kennedy daflegrau America allan o Dwrci, er na chyhoeddwyd hynny ar y pryd. Yn ddiddorol, dywedodd ambell sylwebydd yn ddiweddar mai 'Ciwba Rwsia' yw sefyllfa'r Wcráin heddiw.

#### Gogledd Iwerddon

Cyfaddawd a fu yng Ngogledd Iwerddon hefyd. Am flynyddoedd maentumiai Llywodraeth Prydain na fydden nhw byth yn trafod â'r IRA nes i'r rheiny daflu eu harfau. Gwrthodai'r Gweriniaethwyr wneud hynny. Ond yn y diwedd ildiodd y ddwy ochr ar y pwyntiau hynny a ganwyd Cytundeb Gwener y Groglith. Felly, beth amdani, NATO a Rwsia? Anghofiwch eich balchder. Tynnwch y trawstiau o'ch llygaid. Gallai NATO ddatgan na fydd yn derbyn Wcráin yn aelod am ugain mlynedd, dyweder. Gallai Putin addo atal ei gefnogaeth i wrthryfelwyr y Donbas a'u diarfogi. Gallai Llywodraeth Wcráin roi statws arbennig i ranbarth Dwyrain y wlad. Ac efallai daw heddwch i Ewrop wedyn, heb na bygythion na sancsiynau yn unman. Trwy gyfaddawd.

#### Robat Powell

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)



## Cyfarfodydd Blynyddol Caerfyrddin Gorff. 7 – 9

Y mae'n llawenydd datgan bod y paratodau ar gyfer y cyfarfodydd blynyddol eleni, yn mynd rhagddynt yn dda ac yr ydym eisoes mewn dyled i gyfeillion caredig Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin am eu hymrwymiad i'r dasg o drefnu. Diolch.

Gobeithio y bydd effeithiau'r pandemig wedi pylu erbyn yr haf gan ein gadael ninnau'n rhydd i fynd a dod fel y dymunwn.

#### Penderfyniadau

Bydd cyfle i gyflwyno penderfyniadau i'r Gynhadledd a dylai rhybudd o bob penderfyniad, wedi ei lofnodi gan y cynigydd a'r eilydd, gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn **dydd Gwener, 20 Mai 2022, fan bellaf.**

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*

**Y Parchg Ddr Alun Tudur**  
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
Caerdydd, CF23 9BS  
Ffôn: 02920 490582  
E-bost: aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*

**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**  
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
LL49 9UE  
Ffôn: 01766 513138  
E-bost: IwanLlew@aol.com

**Alun Lenny**  
Porth Angel, 26 Teras Picton  
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
Ffôn: 01267 232577 /  
0781 751 9039  
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*

**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc  
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe**  
ABERTAWA SA7 0AJ  
Ffôn: 01792 795888  
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

**Dalier Sylw!**

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

## Y Parchg Anita Ephraim

Ym Mynytho ar Benrhyn Llŷn y ganwyd ac y magwyd Anita, yn ferch i Hywel ac Ella Parry ac yn chwaer fach i Gwilym. Fe'i haddysgwyd yn ysgol gynradd y pentref ac ysgol Botwnnog a'i haelwyd grefyddol, a barhaodd yn annwyl iawn iddi gydol ei hoes, oedd capel Horeb, Mynytho. Ac yno, a hithau'n ferch ysgol ddeuddeg oed, y cyffyrddwyd ei chalon am y tro cyntaf pan ganwyd emyn anfarwol Eben Fardd, 'O fy Iesu bendigedig unig gwmni f'enaid gwan', yn angladd ei thaid. Arferai ddweud mai'r profiad dwys yma a'i gosododd ar lwybr y weinidogaeth



Penybont Fawr yn Nyffryn Tanat yng nghanol mwynder Maldwyn, gofalaeth oedd yn ymestyn o'r Waun i gyffiniau Croesoswallt. Treuliodd gyfnod wedi hynny yn gweithio gyda mudiad efengylaidd rhyng enwadol y Scripture Union ac wedi cyfnod derbyniodd alwad yn 1999 i fugeilio capel Bethel, Llan Ffestiniog. Yma y cyfarfu â Gwil, ei henaid hoff cytûn, a phriodi ac ymgartrefu yn Nhyddyn Merched. Ymhen y rhawg ychwanegwyd eglwysi Bryn Tecwyn ac Utica i'w gofal hefyd ac yn 2006 derbyniodd alwad i fugeilio Gofalaeth Bro Trawsfynydd.

### Coleg Bala Bangor

O ysgol enwog Botwnnog aeth ymlaen i Goleg Bala Bangor i gymhwyso'i hun i waith y weinidogaeth ac yn 1982 fe'i hordeiniwyd yn weinidog ar ofalaeth

### Pregethu

Roedd hi'n credu'n angerddol mewn pregethu – a chanddi gof arbennig.

Anaml iawn y byddai'n defnyddio nodiadau. Roedd yn hynod garedig ac agos atoch wrth natur, yn barod bob amser i fynd yr ail filltir, ond gallai hefyd fynegi ei barn yn groyw a diflewyn ar dafod. Ymdrechodd i fugeilio a gwarchod ei phraidd hyd eithaf ei gallu. Mewn tŷ galar roedd hi'n gefn ac yn gryfder – yn cydymdeimlo â'r profedigaethus yng ngwir ystyr y gair. Mewn angladd merch ifanc yn ddiweddar roedd ei llais yn torri dan deimlad a'r dagrau'n llifo i lawr ei gruddiau. Roedd ganddi arfer hyfryd o baratoi taflenni o'r gwasanaethau angladdol i'r teuluoedd eu cadw. Gwnai yr un modd gyda gwasanaethau bedydd. Doedd dim yn ormod o drafferth a byddai'n aml ar ei thraed wrth wely claf neu yn paratoi gwasanaethau neu ddeunydd i wefan yr ofalaeth – yn arbennig yn ystod y cyfnod clo – hyd oriau mân y bore.

### Teulu

Ar ei haelwyd fel yn ei gwaith roedd hi'n gwarchod ac yn cynnal. Hi oedd calon ac angor ei theulu a'i gofal a'i chonsym am Gwil, Sion, Tomos a Catrin yn fawr. Oherwydd prinder gweinidogion roedd galw mynych am ei gwasanaeth y tu hwnt i ffiniau ei gofalaeth ac er bod ei hiechyd yn fregus yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma ymdrechai i ymateb i bob galw.

Daeth y diwedd yn frawychus o sydyn ac annisgwyl ac yn ôl ei dymuniad cynhaliwyd ei gwasanaeth angladdol yng Nghynfal Fawr yng ngofal ei chyfneither, y Parchg Megan Williams. Traddodwyd teyrnged hyfryd iddi gan Rhian Williams, cyfneither arall a chafwyd geiriau o werthfawrogiad gan Gwilym Ephraim a'r Parchedigion Carwyn Siddall ac Euron Hughes. Fe'i rhoddwyd i orffwys ar dir ei chartref gyda geiriau gogoneddus emyn Eben Fardd, oedd wedi ei hysbrydoli a'i chynnal mewn hawddfyd ac adfyd, yn seinio yn ein clustiau.

Diolch i Dduw amdani. Boed iddi orffwys mewn heddw.

**Megan Williams**

Gras a  
thangnefedd i  
chwi oddi wrth  
Dduw ein Tad  
a'r Arglwydd  
Iesu Grist.  
(1Co 1:3)

